Hwn ydyw'r dydd o ras ein Duw

Caneuon Ffydd: Rhif 10

Hwn ydyw'r dydd o ras ein Duw,
yr amser cymeradwy yw;
brysiwn i roi'n calonnau i gyd
i'r hwn fu farw dros y byd.

Gwelwch yr aberth mawr a gaed,
mae gobaith ichwi yn ei waed;
O dowch i mewn heb oedi'n hwy,
i wledda ar haeddiant marwol glwy'.

Dowch, bechaduriaid, dowch i'r wledd,
mae'r Iesu'n cynnig ichwi hedd:
mae croeso i bawb i ddod at Dduw,
mae'r alwad i holl ddynol-ryw.

CHARLES WESLEY, 1707–88
cyf. JOHN HUGHES, 1776–1843

MYFYRDOD

Ceir teimlad o frys yng nghyfieithiad John Hughes o emyn Saesneg Charles Wesley, 'This is the time, no more delay'. Ond yn ogystal â'n hatgoffa bod yr amser sydd gennym i ymateb i alwad Duw arnom yn yr Efengyl yn prinhau, cawn ein hatgoffa hefyd bod yr alwad honno'n un eang ac yn ymestyn at bawb yn ddiwahân ar hyd a lled y byd: 'brysiwn i roi'n calonnau i gyd i'r hwn fu farw dros y byd'; ac yna yn y pennill olaf: 'mae'r alwad i holl ddynol-ryw'.

Fe atgoffwyd Pedr yn Llyfr yr Actau o'r gwirionedd mawr hwn bod yr Efengyl yn Efengyl i bawb a bod gras Duw yn ymestyn at y cenhedloedd eraill yn ogystal ag at yr Iddewon. Dywedwn ein bod yn dysgu rhywbeth newydd bob dydd, ond roedd profiad dysgu Pedr yn mynd i newid gweddill ei weinidogaeth y diwrnod arbennig y cafodd y weledigaeth o holl anifeiliaid y ddaear wedi eu gosod o'i flaen ar ryw fath o hwyl anferth. 'A daeth llais ato, "Cod,

Pedr, lladd a bwyta." Dywedodd Pedr, "Na, na, Arglwydd; nid wyf fi erioed wedi bwyta dim halogedig nac aflan."' (Actau 10:13–14). Fe heriwyd llawer o syniadau Iddewig traddodiadol Pedr yn y weledigaeth honno, ac o hynny ymlaen bu'n fodlon, o dan arweiniad yr Ysbryd Glân, i sôn am Iesu Grist wrth bobl nad oedd ganddyn nhw ddim cefndir Iddewig. Arweiniwyd ef i dŷ Cornelius a oedd yn ei ddisgwyl yno, ac fe'i hachubwyd ef a'i holl deulu er nad oedden nhw'n Iddewon. Gwelwyd yr Eglwys yn tyfu ac yn ffrwytho ymysg y cenhedloedd yn sgil hyn, a dyna'n wir yw thema gweddill Llyfr yr Actau ar ôl y trobwynt allweddol hwn pryd y sylweddolwyd y ffaith bod Duw am weld yr Efengyl yn cael ei chyhoeddi i bob cenedl: 'Felly rhoddodd Duw i'r Cenhedloedd hefyd yr edifeirwch a rydd fywyd.'(Actau 11:18).

Fe allwn ninnau fod yn euog ar brydiau o feddwl nad oes angen Crist ar bawb – eu bod nhw efallai'n bobl ddi-fai hebddo! Neu efallai ein bod yn tybio, fel y disgyblion cynnar gynt, bod yn rhaid wrth fath arbennig o gefndir arnom – cefndir capel ac Ysgol Sul a gwybodaeth o amryw o emynau yn ein hachos ni fel Cymry. Ond fe gofiwn yr adnod sydd yn graidd i'r Efengyl, ac y byddwn yn ei gweld yn cael ei chwifio'n uchel mewn amryw o lefydd cyhoeddus – efallai ichi ei gweld mewn gêmau pêl-droed? Sôn ydw i am Ioan 3:16, wrth gwrs: 'Do, carodd Duw y byd gymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bob un sy'n credu ynddo ef beidio â mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.' Nid rhai pobl haeddiannol yn unig a garodd Duw; nid pobl o gefndir arbennig ychwaith, ond y byd yn gyfan, ac mae e'n dyheu am gael perthynas agos a bywiol â phawb ohonom ac mae e wedi gwneud hynny'n bosibl yn aberth ei Fab drosom.

GWEDDI

Ein Tad, trugarog a graslon, dyro olwg llawn i ni heddiw ar ehangder dy neges yn Iesu Grist; y neges hon sydd yn newyddion da, nid ar gyfer rhai yn unig, ond ar gyfer y byd yn gyfan. Dysga ni i beidio â'i chadw i ni ein hunain – mae hi'n rhy fawr i hynny: 'mae croeso i bawb i ddod at Dduw, mae'r alwad i holl ddynol-ryw.' Er gogoniant i enw Iesu. Amen.